

Canslwyd arholiadau'r haf eleni oherwydd y pandemig COVID-19. Er gwaethaf hynny, bydd y rhan fwyaf o'r myfyrwyr yn dal i dderbyn graddau wedi'u cyfrifo yr haf hwn.

Eleni bydd eich graddau'n cael eu seilio ar Raddau Asesu Canolfannau a Threfnau Rhestrol y mae eich athrawon/darlithwyr wedi cyflwyno i ni. Cafodd y rhain eu seilio ar gyfuniad o ffactorau. Roedd y ffactorau hyn yn cynnwys ffug arholiadau, asesiadau di-arholiad a gwblhawyd a darnau eraill o waith a aseswyd. Yna cafodd ansawdd y graddau hyn ei sicrhau gan brifathrawon yn eich ysgol/coleg cyn eu cyflwyno i ni.

Mae angen cynnal safonau. Er mwyn gwneud hynny, byddwn ni'n defnyddio prosesau ystadegol i safoni eich graddau. Cafodd y prosesau hyn eu datblygu gan CBAC a'u cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru, sef y corff sy'n rheoleiddio cymwysterau yng Nghymru.

### **Beth yw safoni?**

Bob blwyddyn, byddwn ni'n cynnal y safonau drwy osod asesiadau sy'n debyg o ran yr her maen nhw'n ei gynnig. Bydd safon y marcio'n cael ei monitro i wneud yn siŵr ei bod yn gywir ac yn gyson, a bydd ffiniau graddau'n cael eu penderfynu i wneud yn siŵr bod modd cymharu safonau o flwyddyn i flwyddyn. Eleni ni chawsoch y cyfle i sefyll eich asesiadau. Byddwn ni felly yn defnyddio proses ystadegol fydd yn sicrhau ein bod yn cynnal y safonau graddio. Gan ein bod yn defnyddio'r broses hon, gallwch chi fod yn siŵr eich bod yn derbyn gradd deg, a bod y safon yn gyson â'r gorffennol a'r dyfodol.

### **Pa wybodaeth fydd yn cael ei defnyddio?**

Bydd ein staff arbenigol yn defnyddio dull ystadegol a gymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru i ystyried y ffactorau canlynol:

- Canlyniadau eich ysgol/coleg o'r gorffennol
- Gwybodaeth am gyflawniad blaenorol myfyrwyr eleni
- Canlyniadau cenedlaethol pob pwnc o flynyddoedd blaenorol

Y ffactorau hyn, ynghyd â gwybodaeth y bydd eich ysgol/coleg wedi'i darparu, fydd yn cael eu defnyddio i sicrhau bod graddau'n cael eu dyfarnu'n deg a'u bod o'r un gwerth â'r graddau a ddyfarnwyd i fyfyrwyr mewn blynyddoedd blaenorol.

### **Ydy'r math o gymhwyster yn dylanwadu ar y math o wybodaeth fydd yn cael ei defnyddio?**

Mae strwythur gwahanol yn perthyn i'r cymwysterau UG/Safon Uwch a TGAU a gymeradwyir gan Cymwysterau Cymru. Byddwn ni felly'n defnyddio gwybodaeth wahanol i gynhyrchu'r graddau terfynol ar gyfer y cymwysterau. Er enghraifft, bydd myfyrwyr sy'n cymryd Safon Uwch eleni wedi cymryd UG y llynedd. Mae hynny'n cyfrannu 40% at eu gradd Safon Uwch

derfynol. O ganlyniad felly, bydd y marciau o'r asesiadau UG hyn a gwblhawyd yn ffactor fwy arwyddocaol na chanlyniadau blaenorol o'ch ysgol a choleg.

I'r gwrthwyneb, does dim tystiolaeth o gyflawniad blaenorol ar gael ar gyfer cymwysterau TGAU llinol fel daearyddiaeth felly bydd canlyniadau eich ysgol a choleg o'r gorffennol yn ffactor fwy arwyddocaol yn yr achos hwn. Byddwch chi'n cael gradd deg am eich cymhwyster ym mhob achos a fydd yn caniatáu i chi symud ymlaen.

### **A fydd fy ngraddau i'n wahanol i'r hyn a gyflwynwyd gan fy athrawon/darlithwyr?**

Ni chafodd unrhyw broses safonol benodol ei chytuno'n genedlaethol i'w dilyn gan athrawon/darlithwyr wrth gyfrifo eu graddau asesu. Mewn rhai achosion, felly, efallai y bydd y graddau hynny'n rhy uchel neu'n rhy isel. Drwy ddilyn dull o safoni, byddwn ni'n mynd i'r afael ag unrhyw faterion a allai olygu bod eich gradd derfynol yn uwch neu'n is na'ch Gradd Asesu Canolfannau.

### **Beth yw'r drefn os nad ydych chi'n hapus â'ch canlyniadau, dylech siarad â'ch Swyddog Arholiadau yn eich ysgol/coleg. Efallai y bydd yn gallu apelio ar eich rhan. Mae gwybodaeth bellach i'w chael ar ein taflen ffeithiau am apeliadau.**